

Deietegwyr: Yr Allwedd i Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys a rheoleiddiedig yw deietegwyr, sy'n asesu, diagnosio ac yn trin problemau deietegol a maethol ar lefel unigol ac iechyd y cyhoedd yn ehangach. Yn y BDA, rydym yn gwybod am yr effaith gadarnhaol a gaiff deietegwyr yng Nghymru fel arbenigwyr mwyaf blaenllaw ein gwlad ar fwyd a maeth. Yn y Maniffesto hwn, byddwn yn dangos mai nhw yw'r allwedd i'r meysydd hanfodol ar gyfer iechyd y genedl yn y dyfodol: atal ac ymyrraeth gynnar.

Wrth i bobl fyw'n hirach, a disgwyl mwy gan ein system iechyd, mae angen rheoli'r galw trwy atal afiechyd a mynd i'r afael â phroblemau iechyd cyn iddynt waethygu. Mae tystiolaeth yn dangos, os na wneir hynny, y bydd cymdeithas yn wynebu costau a phwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd. Yng Nghymru, mae hyn hyd yn oed yn bwysicach nag mewn mannau eraill yn y DU oherwydd cyfraddau uchel o [dlodi](#) ac [ansicrwydd bwyd](#), anghydraddoldebau iechyd, a [chyfran gynyddol o'r boblogaeth dros 65 oed](#). Er enghraifft, [mae dadansoddiad Nesta yn awgrymu bod tua un o bob tri oedolyn yng Nghymru yn byw gyda gordewdra](#) - gan arwain at bwysau ychwanegol a drud y gellir ei osgoi ar wasanaethau'r GIG. [Mae anghydraddoldebau iechyd hefyd wedi'u cysylltu â chostau ychwanegol o £322 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru \(2028-19\)](#). Hefyd, mae [cyfraddau sylweddol o ddiffyg maeth](#) yn effeithio ar fregusrwydd ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

Yn y BDA, rydym yn gwybod bod deietegwyr a gweithwyr cymorth deietetig yn chwarae rhan ganolog mewn atal, ymyrraeth gynnar ac adferiad, a bod ganddynt y potensial i gyfrannu hyd yn oed yn fwy at hynny. Mae tystiolaeth, megis [gwerthusiad Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan](#) wedi dangos y gwelliant i ofal a'r arbedion cost y maent yn eu cyflawni. Dyna pam rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i'w cefnogi i wneud hynny trwy gymryd camau mewn tri maes: **cefnogi'r** gweithlu deietetig, **buddsoddi** mewn addysg a hyfforddiant ac **ymddiried** mewn deietegwyr ar bolisi bwyd.

1. Cefnogi'r Gweithlu Deietegol

Mae deietegwyr a gweithwyr cymorth deietegol yn ymroi eu bywydau proffesiynol i wella iechyd pobl trwy asesu, diagnosio a thrin problemau deietegol a maethol ar lefel unigol ac iechyd y cyhoedd yn ehangach. Mae'r camau ataliol a'r ymyriadau cynnar a gyflawnir ganddynt yn arbed swm sylweddol i GIG Cymru. Yn anffodus, nid yw'r gweithlu hollbwysig hwn yn cael ei gefnogi i gyrraedd ei botensial allweddol gyda staff yn cael eu gadael dan bwysau, wedi'u digalonni ac yn rhwystredig. Ar yr un pryd, mae diffyg seilwaith digidol mewn byrddau iechyd yng Nghymru, gyda chofnodion papur yn aml yn dal i gael eu defnyddio, gan olygu bod biwrocratiaeth ar hyn o bryd yn cymryd llawer o amser ac yn wastraffus a hynny'n ddiangen.

Mae cyflog deietegwyr a gweithwyr cymorth hefyd wedi'i erydu oherwydd chwyddiant uchel y tu hwnt i godiadau cyflog, sy'n golygu bod cyflogau mewn termau real yn llai flwyddyn ar ôl blwyddyn. Nid yn unig bod y mater hwn wedi cael effaith negyddol ar recriwtio a chyfraddau cadw ond mae hefyd yn digalonni ein gweithlu talentog a gweithgar. Fel undeb llafur sy'n falch o gynrychioli deietegwyr a gweithwyr cymorth ledled Cymru, credwn ei bod yn hollbwysig bod yr erydiad hwn yn cael ei wrthdroi, a bod gwerth y gweithlu deietegol yn cael ei gydnabod trwy adfer cyflog teg.

Hefyd, credwn y gall ymestyn hawliau presgripsiynu sylfaenol i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd cymwys, yn enwedig deietegwyr, leihau'r baich gweinyddol a chost yn aruthrol. Mae cyffuriau GLP-1 rheoli pwysau a diabetes wedi gweld cynnydd sydyn mewn poblogrwydd. [Credwn ei bod yn bwysig bod](#)

[deietegwyr yn cael eu grymuso i oruchwyllo eu defnydd priodol](#) ochr yn ochr â chymorth deietetig, a'u bod yn cael eu hymgorffori mewn gwasanaethau gordewdra, fel bod eu buddion posibl yn cael eu cynyddu i'r eithaf a bod defnydd cyfrifol yn cael ei hyrwyddo. Yng Nghymru hefyd cyflwynwyd rhaglenni megis y [cynllun cerdyn talu presgripsiwn di-glwten](#) arloesol. Mae'r rhain, ynghyd â phresgripsiynau am ddim cyffredinol, yn golygu y gallai ymestyn hawliau presgripsiynu fod hyd yn oed yn fwy effeithiol yng Nghymru. Dyma pam rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- **Fynd i'r afael â thanstaffio mewn adrannau deieteteg** trwy gynllun gweithlu hirdymor ar gyfer gweithwyr perthynol i iechyd. Dylai hyn gynnwys gwella cynllunio gyrfa ar gyfer deietegwyr a gweithwyr cymorth deieteteg, fel bod gennym gyfraddau cadw staff gwell a recriwtio wedi'i dargedu.
- **[Ymrwymo i gyflog teg](#) trwy ariannu'n llawn gynllunio'r gweithlu** - mynd i'r afael â dirywiad cyflog mewn termau real trwy godiadau cyflog uwchlaw chwyddiant a chyhoeddi amserlen glir ar gyfer adfer cyflog y GIG i lefelau cystadleuol.
- **Gwella effeithlonrwydd y gweithlu deieteteg** trwy fuddsoddi mewn uwchraddio digidol ac archwilio ehangu hawliau presgripsiynu sylfaenol, cydweithio â Llywodraeth y DU a rhoi pwysau arni i archwilio sut y gellid cyflawni hyn yng Nghymru.

2. Buddsoddi mewn Addysg a Hyfforddiant

Er mwyn i ddeietegwyr a gweithwyr cymorth gael mwy o effaith yn y dyfodol, rhaid i ni fuddsoddi mewn addysgu'r genhedlaeth nesaf yn ogystal ag uwchsgilio gweithwyr. Ar hyn o bryd, mae pobl yng Nghymru sy'n dymuno hyfforddi mewn deieteteg yn gyfyngedig o ran sut y gallant astudio. Mae llawer yn teimlo bod gyrfa mewn deieteteg allan o'u cyrraedd naill ai oherwydd na allant gael mynediad at fenthyciadau/grantiau cynhaliadaeth digonol, oherwydd nad oes ganddynt y cymwysterau cywir, neu oherwydd eu bod am ennill cyflog ac aros lle maent yn byw ar hyn o bryd tra eu bod yn hyfforddi.

Mae'r BDA yn credu bod hyn yn rhoi cyfyngiad aruthrol ar nifer ac ystod y bobl dalentog a allai ymuno â'r proffesiwn - colled enfawr i gleifion, trethdalwyr Cymru ac iechyd y genedl. Gellir mynd i'r afael â hyn trwy gefnogi'n well ddarpar fyfyrwyr i astudio deieteteg a thrwy gynnig, a chyllido'n llawn, lwybrau amgen i'r proffesiwn, megis prentisiaethau gradd.

Yn yr un modd, mae'r cyfleoedd i ddeietegwyr a gweithwyr cymorth presennol uwchsgilio trwy hyfforddiant yn gyfyngedig iawn, gan niweidio cyfraddau cadw a chyfyngu ar ein sylfaen sgiliau. Mater allweddol yw'r diffyg amser â thâl i ddilyn cyrsiau hyfforddi. Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- **Wella mynediad at gyrsiau deieteteg prifysgol.** Mae hyn yn golygu cynnal cyllid ar gyfer lleoedd presennol, sicrhau mynediad at gyllid cynhaliadaeth digonol, sicrhau bod opsiynau astudio rhan-amser ac opsiynau astudio hyblyg eraill ar gael a hyrwyddo cyrsiau mynediad gwyddoniaeth.
- **Cymryd camau i wneud gyrfa mewn deieteteg yn fwy hygyrch** trwy greu llwybrau amgen wedi'u hariannu'n llawn i'r proffesiwn, megis prentisiaethau gradd. Hoffem hefyd weld cynllunio gyrfaoedd gwell ar gyfer myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn deieteteg, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru.
- **Sicrhau bod gan ddeietegwyr a gweithwyr cymorth deieteteg well mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant**, gan gynnwys amser â thâl wedi'i glustnodi i wneud y rhain.

3. Ymddiried mewn Deietegwyr ar Bolisi Bwyd

Mae deietegwyr, trwy ddiffiniad, yn weithwyr proffesiynol cymwys a rheoleiddiedig. Nhw yw'r arbenigwyr ar iechyd deietegol a maeth, ac mae ganddynt botensial enfawr i wella iechyd y cyhoedd os ydym yn ymddiried yn eu harbenigedd a'u blaenoriaethau. Felly, credwn y dylai deietegwyr fod yn flaenllaw ac yn ganolog i ddatblygu polisi bwyd, gan sicrhau ein bod yn dilyn y wyddoniaeth i wella iechyd y cyhoedd.

Mae buddion ehangu prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd, [achos a hyrwyddir gan ddeietegwyr](#), eisoes yn cael eu gwireddu yng Nghymru, yn ogystal â buddion cynlluniau megis Bwyd a Hwyl a Sgiliau Maeth am Oes. Mae'r BDA o'r farn bod y rhain yn llwyddiannau i'w dathlu ond mae angen gweithredu ymhellach i fanteisio i'r eithaf arnynt. Nodwn gyda phositifrwydd fod safonau bwyd ysgolion yn cael eu hadolygu a bod dull ysgol gyfan o fwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo. Hoffem weld y gwaith hwn yn parhau mewn deialog â deietegwyr iechyd y cyhoedd. [Mae angen ymchwil bellach](#) i fonitro effaith prydau ysgol gynradd am ddim cyffredinol a gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn dilyn hyn yn ddigonol. Mae oed ysgolion uwchradd hefyd yn oedran datblygiadol allweddol i ddisgyblion o ran cyrhaeddiad, atal afiechyd a llunio arferion iechyd. Credwn y dylid ystyried ehangu prydau ysgol am ddim ymhellach i adlewyrchu hyn.

Mae'r BDA hefyd yn credu mewn dull cyfannol a thrawslywodraethol o ymdrin â maeth yng Nghymru, gyda deietegwyr iechyd y cyhoedd yn greiddiol iddo. Credwn fod cyflawni [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) yn golygu ystyried effaith iechyd deietegol ystod eang o feysydd polisi a gweithio i sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol fynediad at ddeietau iach a chynaliadwy. Adlewyrchir hyn yn [Adroddiad Blynnyddol](#) diweddaraf Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a alwodd am Gynllun Cydnerthedd Bwyd Cenedlaethol i wella hyn. Nodwn hefyd amlygrwydd cynyddol [egwyddorion Marmot](#) ar gyfer gwella cydraddoldeb iechyd ac [ymrwymiad](#) Llywodraeth Cymru i wneud Cymru y "Genedl Marmot" gyntaf. Roeddem yn falch o weld strategaeth bwyd gymunedol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac yn gobeithio y bydd gwaith yn parhau yn y maes hwn ar batrwm [adroddiad Strategaeth Fwyd Genedlaethol Henry Dimbleby](#), y mae'r [BDA yn ymgychu](#) i lywodraethau'r DU ei fabwysiadu. Rydym am i faeth, a deietegwyr iechyd y cyhoedd, chwarae rhan ganolog yn y gwaith hwn.

Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- **Archwilio opsiynau i ehangu ymhellach brydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd a gwella addysg bwyd mewn ysgolion** yn fwy cyffredinol drwy'r dull ysgol gyfan. Dylid parhau i fonitro'n agos ganlyniadau prydau ysgol am ddim cyffredinol mewn ysgolion cynradd.
- **Sicrhau cyfranogiad deietegwyr iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu, dylunio a, lle bo'n briodol, gweithredu polisi a rheoliadau bwyd.** Dylai hyn gynnwys gweithredu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
- **Sicrhau bod gwaith ar draws y sector cyhoeddus yn gwella maeth y cyhoedd a chydraddoldeb iechyd**, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Egwyddorion Marmot ac adroddiad y Strategaeth Bwyd Cenedlaethol. Creu Cynllun Cydnerthedd Bwyd Cenedlaethol, mewn partneriaeth â deietegwyr, i gyflawni hyn drwy wella mynediad diogel at iechyd a deietau cynaliadwy.

.....

©2025 The British Dietetic Association
3rd Floor, Interchange Place, 151-165 Edmund Street, Birmingham, B3 2TA
email: info@bda.uk.com

Commercial copying, hiring or lending without the written permission of the BDA is prohibited.

bda.uk.com